

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd ar  
Zoom**

**Nos Fawrth, Mehefin 16, 2020 am 8:30 o'r gloch.**

[www.cyngorllanfachreth.cymru](http://www.cyngorllanfachreth.cymru)

**Presennol** Cynghorwyr: Peredur Jenkins (Cadeirydd), Rhun Prys Jones, Geraint Rh. Evans. Karen G. Goswell, Huw A. Evans, Emlyn Roberts, W.B. Jones, Gerallt Griffith. Hefyd Henry M. Edwards.

**1. Croeso'r Cadeirydd**

Croesawyd pawb oedd yn bresennol.

**2. Ymddiheuriadau:** Llion Rh. Williams.

**3. Dewis Swyddogion**

Cadeirydd: Peredur Jenkins.

Is Gadeirydd: Meurig Ashton.

Cynrychiolwyr ar y canlynol:

Neuadd Bentref Brithdir: Rhun Prys Jones

Neuadd Bentref Llanfachreth: Gerallt Griffith

Neuadd Bentref Rhydymain: Emlyn Roberts

Neuadd Rhydygorlan: Meurig Ashton

Un Llais Cymru (2): Peredur Jenkins, Meurig Ashton.

**4. Datgan diddordeb.**

Nid oedd neb yn datgan diddordeb.

**5. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Chwefror 18, 2020**

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

**6. Materion yn codi o'r cofnodion Chwefror 18, 2020**

Eitem 8.e. Llythyr (6/1/2020) oddi wrth Cymdeithas Undebol Machreth. Maent angen cymorth ariannol tuag at eu hapel am diffibriliwr i bentref Llanfachreth.

Penderfynwyd rhoi £250.

**7. Gohebiaeth**

a. Llythyr (19/2/2020) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd eu Seremoni Gwobrau Arfer Arloesol Blynyddol ar 26/3/2020 am 9.30yb yn Adeilad Hafod a Hendre, Maes Sioe Amaethyddol Cymru. Amgáu mae Agenda a Ffurflen Archebu; cost fydd £55 y pen. Bydd y cyfarfod yn gyfle cael gwybod y gwaith sy'n cael ei wneud gan gynghorau cymuned a thref.

Llythyr (12/3/2020) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bod y Seremoni wedi ei gohirio oherwydd y coronafeirws.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION MEHEFIN 16, 2020

b. Llythyr (25/2/2020) oddi wrth Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn rhoi gwybod bydd gwaith ail-wynebu a llinellu yn cael ei wneud ar ffordd A494 yn Ffatri Laeth, Rhydymain rhwng 26/2/2020 a 4/3/2020.

c. Llythyr (26/2/2020) oddi wrth Un Llais Cymru gyda manylion o sesiynau hyfforddi yn Gymraeg cynhelir yn Canolfan Hen Blas, Stryd Fawr, Y Bala. Y sesiynau bydd yn cael eu rhoi a'u dyddiad: Y Cyngor (8/4/2020); Cod Ymddygiad (6/5/2020); Sgiliau Cadeirio (3/6/2020); Y Cyngor fel Cyflogydd (1/7/2020). Cynhelir y sesiynau rhwng 6.30yh a 9:00yh. Cost hyfforddant yw £40.

ch. Llythyr (2/3/2020) oddi wrth Un Llais Cymru gyda manylion swydd sydd ganddynt ei lenwi sef Swyddog Polisi. Bydd y swyddog yn gweithio o gartref ac yn rhan o dîm. Dyddiad cau – 17/3/2020.

d. Llythyr (2/3/2020) oddi wrth Un Llais Cymru gyda manylion swydd sydd ganddynt ei lenwi sef Swyddog Datblygu Canolbarth a Gorllewin Cymru. Bydd y swyddog yn gweithio o gartref ac yn rhan o dîm. Dyddiad cau – 17/3/2020.

dd. Llythyr (26/2/2020) oddi wrth Un Llais Cymru gyda manylion o sesiynau hyfforddi yn Gymraeg cynhelir yn Canolfan Hen Blas, Stryd Fawr, Y Bala. Y sesiynau bydd yn cael eu rhoi a'u dyddiad: Cod Ymddygiad (6/5/2020); Sgiliau Cadeirio (3/6/2020); Y Cyngor fel Cyflogydd (1/7/2020). Cynhelir y sesiynau rhwng 6.30yh a 9:00yh. Cost hyfforddant yw £40.

e. Llythyr (24/3/2020) oddi wrth Adran Rheoli'r Rhwydwaith, Llywodraeth Cymru gyda chopi gorchymyn drafft o resymau a'r plan ynglŷn â rhoi terfyn cyflymder 40mya rhan amser ar gefnffordd A494 yn Rhydymain.

Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

f. Llythyr (16/4/2020) oddi wrth ITV Cymru ynglŷn â rhaglen Y Byd ar Bedwar. Meant angen cysylltu â phobol i wneud rhaglen gyda rheini sydd wedi cael eu dal gan sgamiau sydd wedi cynyddu o achos y coronafeirws.

Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

ff. Llythyr (22/4/2020) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybodaeth ar ganllawiau ar gyfer aelod cynghorau ar sut i gael y gorau allan o gyfarfodydd a gynhelir o bell oherwydd haint Covid 19. Gall Cynghorau gynnal rhith gyfarfodydd swyddogol, trwy i aelodau ffonio i ymuno mewn cyfarfodydd ffôn neu gymryd rhan trwy gyfarfod fideo.

Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

g. Llythyr a lluniau (22/4/2020) oddi wrth Rhun Jones i'r aelodau yn rhoi gwybodaeth am dân yn y goedwig wrth Tŷ Min. Mae hyn yn dangos mae angen Ffordd Lefel fod ar agor.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION MEHEFIN 16, 2020

h. Llythyr (27/4/2020) oddi wrth Un Llais Cymru gyda rheoliadau newydd ar gyfer cynnal cyfarfodydd Fideo a Thelegyfarfodydd yn ystod argyfwng COVID 19.

Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

i. Llythyr (4/5/2020) oddi wrth Swyddog Cyfathrebu, Cyngor Gwynedd gyda gwybodaeth am y gwasanaeth mae Gyngor Gwynedd yn ei roi ynglŷn â Covid-19.

Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

j. Llythyr (11/5/2020) oddi wrth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, trwy law Un Llais Cymru. Mae'n cynwys gwybodaeth ar ddiweddariad dyddiol am y coronafeirws.

Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

l. Llythyr (15/5/2020) oddi wrth Arweinydd Cyfathrebu, Cyngor Gwynedd yn cynnwys bwletin 'Gyda'n gilydd' yn rhoi gwybodaeth am y gwaith amrywiol sydd yn cael ei wneud gan nifer o asiantaethau Gwynedd yn ystod argyfwng Covid-19..

Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

ll. Llythyr (22/5/2020) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod mae cyfarfod Meirionnydd ar 10/6/2020 wedi ei ganslo oherwydd yr epidemig presennol.

m. Llythyr (5/6/2020) oddi wrth Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn rhoi gwybod bydd ffordd A494 yn cael ei ail wynebu yn Bontnewydd a Golwg Hir o Mehefin 12 i Mehefin 26.

Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

n. Llythyr (5/6/2020) oddi wrth Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru yn rhoi gwybod bydd ffordd A494 yn cael ei ail wynebu yn Tynsimdde o Mehefin 12 i Mehefin 26.

Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

o. Llythyr (11/6/2020) oddi wrth Arweinydd Cyfathrebu, Cyngor Gwynedd yn amgáu mae Rhifyn 3 o Gyda'n Gilydd.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

p. Llythyr (11/6/2020) oddi wrth Cynorthwy-ydd Gweinyddol, Cyngor Gwynedd yn amgáu mae Pecyn Gwybodaeth.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

## **8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Ceisiadau cynllunio:

i. NP5/54/568A. Gosod cladn llechi ar dalcen De Gorllewinol. Garth Wnion, Brithdir. Penderfynwyd cefnogi'r cais (17/3/2020).

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION MEHEFIN 16, 2020

ii. NP5/54/439B. Codi llety gwyliau, gosod tanc septig, a chreu safle parcio a man troi. Adeilad 4, Brithgwm Ganol, Brithdir. LL40 2SA.  
Penderfynwyd gwrthwynebu'r cais (2/4/2020).

Y rheswm am hyn yw rydym wedi bod mewn cysylltiad â'r Parc yn y gorffennol gyda chais NP5/54/439A sydd yr un fath a'r uchod. Roeddem yn anfodlon gyda chais NP5/54/439A oherwydd roedd gwrthwynebiad i ddatblygiad lle mae perchennog am ddatblygu nifer o unedau ar safle a hefyd eu record o beidio cydymffurfio a chanllawiau cynllunio'r Parc. Wrth gysylltu â'r Parc ar y mater derbyniwyd llythyr (dyddiedig 24/4/2017) manwl ganddynt a hefyd cafwyd cyfarfod gyda Ms Iona Thomas a Mr Aled Lloyd o'r Parc i drafod y mater ar 20/6/2017.

iii. NP5/54/317C. Adeiladu garej. Llain 8, Y Wern, Rhydymain.  
Penderfynwyd cefnogi'r cais (27/4/2020).

iiii. NP5/54/50K. Adeiladu twnel poli a sied ardd. Nant y Dderwen, Brithdir.  
Penderfynwyd cefnogi'r cais (27/4/2020).

v. NP5/54/347A. Adeiladu estyniad gan gynnwys balcony llawr cyntaf. Clywedog Cottage, Dolgellau.  
Anfonwyd manylion o'r cais i'r aelodau.

Derbyniwyd llythyr (10/6/2020) oddi wrth y Parc yn rhoi gwybod nid oes polisi sbesiffig am 'balconies'.  
Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.  
Penderfynwyd cefnogi'r cais (11/6/2020)

## **9. Materion Ariannol**

a. Llythyr (12/2/2020) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod beth maent yn eu gwneud. Amgáu mae ffurflen Aelodaeth yn gwahodd y Cyngor i adnewyddu aelodaeth ag Un Llais Cymru am 2020 / 2021. Tâl Aelodaeth yw £139.  
Talwyd y bil 6/5/2020.

b. Llythyr (19/2/2020) oddi wrth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol Llywodraeth gydag Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-2021. Mae'r adroddiad ar we [Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: adroddiad blynyddol 2020 i 2021](#) Adran 13 sy'n berthnasol i gynghorau tref a chymuned.  
Yn yr adroddiad gall unigolyn wrthod derbyn taliadau yn rhanol neu'n llwyr os ydynt yn dymuno a gwneud hynny trwy ysgrifennu'n bersonol at y swyddog priodol.

Taliadau tuag at gostau a threuliau:

Rhaid i bob cyngor cymuned a thref sicrhau bod taliad o £150 y flwyddyn ar gael i'w haelodau fel cyfraniad at gostau a threuliau.

Ad-dalu costau teithio a chostau cynhaliaeth:

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION MEHEFIN 16, 2020

Mae opsiwn gan bob cyngor i ad-dalu costau teithio a chostau cynhaliaeth. Lwfansau milltiroedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi 45c y filltir.

- c. Llythyr (25/2/2020) oddi wrth Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Sir Ddinbych yn diolch am ein rhodd o £100.
- ch. Llythyr (28/2/2020) oddi wrth Pwyllgor Neuadd Llanfachreth yn diolch am ein rhodd o £600.
- d. Llythyr (10/3/2020) oddi wrth Ambiwlans Awyr Cymru yn diolch am ein rhodd o £200.
- dd. Llythyr (14/3/2020) oddi wrth Pwyllgor Neuadd Brithdir yn diolch am ein rhodd o £600.
- e. Llythyr (14/3/2020) oddi wrth Llên y Llannau yn diolch am ein rhodd o £50.
- f. Bil (16/3/2020) Treth Annomestig Genedlaethol ar gyfer 2020/21 tuag at Public Convenience Rhydymain oddi wrth Cyngor Gwynedd. Does dim tal am y cyfnod.
- ff. Llythyr (20/3/2020) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn cynnwys:
- i. Copi o P60 am y flwyddyn yn diweddu 5/4/2020, a chopi o P30 yn rhoi taliadau gwnaethpwyd i HMRC.
  - ii. Bil am £192.00 am gwblhau PAYE am y flwyddyn yn gorffen 5/4/2020 ac am gyflwyno cyflog misol i HMRC ar-lein i gydymffurfio â RTI a pharatoi Tystysgrif Diwedd y Flwyddyn P60.  
Talwyd y bil 6/5/2020.
  - iii. Taliad misol i'r Clerc o Ebrill - £99.64  
Taliad misol i'r Cyllid a Thollau - £24.80.  
 $12(\pounds99.64 + \pounds24.80) = \pounds1,493.28$  y flwyddyn (gweler Eitem 8.d. Cofnodion Ionawr 15, 2019).
- g. Llythyr (23/3/2020) oddi wrth ein cwmni yswiriant Zurich yn rhoi gwybod mae angen adnewyddu ein polisi ar 1/6/2020. Mae ein 'Long Term Agreement' (LTA) wedi dod i ben. Maent yn cynig 1 mlynedd am £576.93, 3 mlynedd am £560.82 a 5 mlynedd am £544.72. Maent angen gwybod ein dewis erbyn 6/4/2020.
- Yn y gorffennol roedd y 'Long Term Agreement' am 3 blynedd a'r taliadau oedd: 2017-2018 £524.58; 2018-2019 £531.10; 2019-2020 £537.81. Y taliad am 2016-2017 oedd £887.37 gyda AON UK.
- Penderfynwyd, wedi cysylltu â'r aelodau, derbyn y cynig 5 mlynedd am £544.72 Rhoddwyd gwybod i Zurich ar 24/3/2020. Talwyd y ffi ar 7/5/2020.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION MEHEFIN 16, 2020

ng. Galwad ffôn (24/3/2020) oddi wrth HM Revenue and Customs yn rhoi gwybod mae angen ail-anfon ein cais am ad-daliad TAW oherwydd newid i drefniadau talu. Anfonwyd y wybodaeth iddynt ar 25/3/2020. Roedd y cais cyntaf wedi ei anfon 30/8/2017.

h. Llythyr (8/4/2020) oddi wrth Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd yn diolch am ein rhodd o £250.

i. Llythyr (10/4/2020) oddi wrth Tŷ Gobaith, Conwy. Maent angen cymorth ariannol. Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

l. Llythyr (27/4/2020) oddi wrth Uned Taliadau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd taliad praesept o £4,500 yn ein cyfrif ar 30/4/2020. Taliad am hanner blwyddyn.

ll. Llythyr (5/5/2020) oddi wrth Llywodraeth Cymru, trwy law Un Llais Cymru. Maent angen gwybod taliadau gwnaethpwyd i'r aelodau yn 2019-2020.

Nid oedd taliadau wedi eu gwneud. Rhoddwyd gwybod iddynt (7/5/2020).

m. Llythyr (12/5/2020) oddi wrth Tenovus Cancer Care. Maent angen cymorth ariannol. Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

n. Llythyr (12/5/2020) oddi wrth Tarian Cymru (grŵp sefydlwyd i godi arian ar gyfer offer amddiffyn (PPE) i weithwyr iechedd Cymru. Maent angen cymorth ariannol.

o. Anfonwyd (9/6/2020) adroddiad cyfrifon 2019-2020 y cyngor i'r aelodau. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad.

p. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Chwefror 2020: £1,140.65.

ph. Balans yn y banc ar 29 Chwefror 2020: £2,538.38.

r. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Mawrth, 2020: £1,140.83..

rh. Balans yn y banc ar 29 Mawrth, 2020: £763.94.

s. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Ebrill, 2020: £1,141.02.

t. Balans yn y banc ar 29 Ebrill 2020: £5,139.50 - yn cynnwys Praesept (hanner blwyddyn).

th. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Mai, 2020: £1,141.21.

u. Balans yn y banc ar 29 Mai 2020: £4,139.34.

## **10. Archwilio**

a. Llythyr (27/3/2020) oddi wrth BDO gyda manylion Hysbysiad archwilio i'r flwyddyn ariannol sy'n diweddu ar 31 Mawrth 2020. Mae angen:

1. Rhaid i'r Ffurflen Flynyddol gael ei hardystio gan y Swyddog Ariannol a'i gymeradwyo gan y Cyngor erbyn Mehefin 30, 2020.

2. Rhaid anfon y Ffurflen Flynyddol wedi'i llenwi a'r holl wybodaeth erbyn Gorffennaf 10.

3. Mae rhaid arddangos yr hysbysiad archwilio (amgau) mewn lle amlwg yn yr ardal, ac ar wefan y Cyngor, cyn Mehefin 16, 2020. Mae angen ffotograff o'r hysbysiad.

Rhodddwyd yr hysbysiad, Cymraeg a Saesneg, ar hysbysfyrdau Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain. Rhodddwyd hefyd ar wefan y Cyngor.

Gwybodaeth ychwanegol:

Cysoniad banc ar Mawrth 31 2020.

Esboniad am amrywiannau rhwng cyfrifon 2018-19 a 2019-20 yn Ffurflen Flynyddol 2019-20.

Os mae'n berthnasol, esboniad ar unrhyw wahaniaethau rhwng cyfrifon 2018-19 a nodwyd ar Ffurflen Flynyddol 2019-20 a chyfrifon 2018-19 a nodwyd ar ffurflen flynyddol 2018-19.

Ffotograff yn dangos bod yr hysbysiad archwilio wedi'i arddangos mewn lle amlwg.

Tystiolaeth bod y Cyngor wedi mynd i'r afael â'r holl faterion archwilio a nodwyd ac a grybwyllwyd i'r Cyngor ar ddiwedd archwiliad 2017-18.

Rhestr o holl gyfarfodydd y Cyngor a gynhalwyd yn 2019-20.

Cyfeiriad gwefan y Cyngor – i gadarnhau cyhoeddi cofnodion.

b. Llythyr (14/5/2020) oddi wrth Archwilio Cymru yn rhoi gwybod mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei gyfeirio fel wrth Archwilio Cymru . Amgáu mae:

Diweddariad Archwilio.

Preparation and Publication of Statutory Financial Accounts for 2019-20.

Question and Answer Brief – The Local Authorities (Coronavirus) (Meetings) (Wales) Regulations 2020.

Hysbysiadau Archwilio sy'n cael eu hychwanegu gan Reoliadau.

Hysbysiad diwygiedig o archwiliad 2019-20.

Diweddariad Archwilio 23-3-2020:

COVID-19 a'r archwiliad o gyfrifon cynghorau cymuned a thref.

Ffurflen Flynyddol Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref yng Nghymru ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2020.

c. Mae angen y Cadeirydd arwyddo'r Ffurflen Flynyddol.

Cytunodd y Cadeirydd i arwyddo'r Ffurflen Flynyddol ac archwilwyd y ffurflen gan yr aelodau.

ch. Anfonwyd llythyr (20/3/2020) i Uned Archwilio Fewnol, Cyngor Gwynedd yn gofyn iddynt barhau fod ein Harchwilydd Mewnol i archwilio ein cyfrifon 2019 / 2020. Derbyniwyd ateb (23/3/2020) yn rhoi gwybod maent yn hapus i wneud y gwaith.

Llythyr (29/5/2020) oddi wrth yr Uned Archwilio Fewnol yn amgáu copi o 'Rhestr wirio cynghorau cymuned/tref/dinas' at archwiliad mewnol. Gyda swyddfa Penarlag ar gau bydd angen gwneud trefniadau i anfon y dogfenau i Gaernarfon.

### **11. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins**

a. Llythyr (2/3/2020) oddi wrth Mr D.E. Davies, Ymgynghoriaeth Cyngor Gwynedd (YCG). Mae'n rhoi gwybod cafodd adroddiad dydd Gwener (28/2/2020) fod darn o wal gynnal wedi disgyn o dan ffordd Lon Lefel. Oherwydd hyn mae'r ffordd wedi ei chau. Bydd gwaith yn cael ei wneud i drwsio'r wal a bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn clirio'r gwastraff o'r tirlithriad. Mae perchenog Tŷ Min wedi cael gwybod am y difrod. Amgáu mae lluniau yn dangos difrod i'r wal.

Anfonodd Peredur Jenkins (2/3/2012) llythyr i Mr Davies yn gofyn pa waith sydd angen ei wneud i drwsio'r difrod, amserlen i wneud y gwaith a pa drefniadau sy'n cael ei wneud i hysbysu trigolion yr ardal yn rhoi gwybod bydd angen archwilio'r wal.

Ateb oddi wrth Mr Davies (3/3/2020) yn rhoi gwybod bydd angen archwilio'r wal, mae ei leoliad mewn lle anodd a bydd angen cael caniatad Cyfoeth Naturiol Cymru i wneud gwaith oherwydd mae ar dir SSSI a SAC a'r angen i osod sgaffald yn yr afon. Roedd y ffordd wedi cau gan dirlithriad cyn difrod i'r wal.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

b. Llythyr (6/3/2020) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd gyda manylion Rhybudd Cau Ffordd mewn argyfwng ynglŷn â Lon Lefel, Ganllwyd. Mae'r ffordd ar gau ar sail iechyd a diogelwch i'r cyhoedd gan fod y wal gynnal y ffordd wedi ei thanseilio gan greu twll yn y ffordd yn ogystal â thirlithriad. Disgwylir cwblhau gwaith o fewn 21 diwrnod.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

c. Llythyr (23/3/2020) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd gyda manylion Rhybudd Cau Ffordd mewn argyfwng ynglŷn â Ffordd Lefel, Ganllwyd. Mae'r ffordd ar gau ar sail iechyd a diogelwch i'r cyhoedd gan fod y wal gynnal y ffordd wedi ei thanseilio gan greu twll yn y ffordd yn ogystal â thirlithriad. Disgwylir cwblhau gwaith o fewn 18 mis.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

ch. Llythyr (30/3/2020) oddi wrth Prif Weithredwr, Cyngor Gwynedd anfonwyd i Gynghorwyr Cyngor Gwynedd yn ateb materion codwyd ganddynt. Bydd ymdrech yn cael ei wneud i wahardd teithio diangen ar lwybrau, bydd arweiniad yn cael ei roi gan y



CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN  
COFNODION MEHEFIN 16, 2020

Llywodraeth ar gyfer gweithwyr gofal a gwastraff, mae anhawsterau trin pobl sy'n aros mewn ty gwyliau, a bydd plant ac oedolion yn parhau derbyn cefnogaeth briodol.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

d. Mae staff Cyngor Gwynedd yn gwneud gwaith rhagorol mewn amgylchiadau anodd oherwydd Covid-19.

**12. Unrhyw fater arall**

a. Cafwyd cyfarfod (25.5/2020) trwy ddefnyddio Zoom. Treial oedd y cyfarfod i weld os oedd Zoom yn gweithio ac yr oedd, a doedd dim trafferth cysylltu. Penderfynwyd cael cyfarfod ar y trydydd dydd Mawrth (fel yr arfer) am 8.30yh, Mehefin 16.

Diolchwyd i Peredur Jenkins am y syniad i gael ein cyfarfodydd trwy Zoom.

b. Penderfynwyd i Peredur Jenkins gwneud ymoliadau â Guthrie Jones & Jones i gael gwybod y diweddaraf o gofrestru Neuadd Llanfachreth gyda'r gofrestrfa tir (Cyngor Cymuned Llanfachreth / Cyngor Gwynedd) er mwyn i'r Neuadd wneud ceisiadau am grant i gynnal a chadw'r Neuadd.

c. Penderfynwyd i Peredur Jenkins gwneud ymoliadau ag Adran Tai ac Eiddo, Cyngor Gwynedd i gael gwybod y diweddaraf ar Tanybryn, Rhydymain.

ch. Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd mae angen tocio gwrychoedd pob ochr i'r ffordd wrth Ysgol Llanfachreth.

d. Penderfynwyd rhoi gwybod i Cyngor Gwynedd mae angen bin baw cŵn rhwng y neuadd a'r ysgol Llanfachreth.

dd. I gael cyfarfod ar y Zoom penderfynwyd anfon ebost i'r aeloda am 8.25 i baratoi dechrau y cyfarfod yn brydlon am 8.30.

-----

Llofnod:

Dyddiad: